

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Hydref 2023 o Gyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar-lein ar 11/10/2023 am 19.00.

89/2023-2024 Presennol.

Cynghorwyr: S Herridge (Cadeirydd), J Williams O.B.E, R Jones, K Waters, R McFarlane.

Clerc.

Cyfieithydd: C Llwyd.

90/2023-2024 I dderbyn ymddiheuriadau.

Cynghorwyr: Y Cyng Sir A Davies, Y Cyng Sir H Jones, M Rees, M Griffiths, R Owen.

91/2023-2024 Derbyn datganiadau o ddiddordeb.

Cyng R McFarlane – Cynllunio **PL/06439**.

92/2023-2024 Cyfleir cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.

Dim.

93/2023-2024 Materion y Cyngor Sir - Y Cyng Sir A Davies.

Dim.

94/2023-2024 Adroddiad y Cadeirydd.

Dywedodd y Cyng S Herridge ei bod wedi mynychu Ysgol Gynradd Llanddarog ar 18/07/2023 a chyflwynodd Fwg Coroniad Tsieina asgwrn y Brenin Siarl III i'r plant. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb hefyd yn ystod y cyflwyniad.

Adroddodd y Cyng S Herridge ei bod wedi mynychu Cinio Blynyddol Sioe Llanddarog yn yr Emlyn Arms, Llanarthne ar 22/09/2023 a diolchodd i'r pwyllgor am drefnu digwyddiad pleserus.

95/2023-2024 Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 12/07/2023.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion 12/07/2023. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge.

96/2023-2024 Materion yn codi o'r cofnodion uchod.

Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod yr holl faterion i'w datrys wedi eu gweithredu ac os derbyniwyd gohebiaeth, roedd copi o'r E-bost wedi ei anfon at bob aelod er gwybodaeth.

97/2023-2024 I nodi gohebiaeth neu i restru i'w hystyried mewn cyfarfod o'r cyngor sydd i ddod.

(Mae'r holl ohebiaeth berthnasol yn cael ei e-bostio at aelodau'r cyngor ar yr adeg y'i derbynir a dim ond yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod os oes angen neu os gwneir cais penodol gan yr aelodau neu'r Clerc).

Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn galwad ffôn ac e-bost gan aelodau'r gymuned ynglŷn â'r cyfyngiad cyflymder 20mya newydd o fewn y gymuned. Yn ôl trigolion, dyw map Cyngor Sir Caerfyrddin o newidiadau i derfynau cyflymder o fewn yr ardal ddim yn gywir ac nid yw'n rhoi union leoliadau'r terfyn cyflymder newydd o 20mya. Cadarnhaodd y Clerc a'r Cyng R Jones fod y mapiau'n ddryslyd, ac awgrymwyd os oedd unrhyw ymholiadau pellach yn codi ynglŷn â'r mater y dylid cyfarwyddo'r cyhoedd i ddilyn yr arwyddion cyfyngiad cyflymder ar y briffordd. Hefyd gofynnwyd i'r Clerc hysbysu Cyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn â dryswch y mapiau. **Penderfynwyd** nodi.

Derbyniwyd e-bost ar 05/10/2023 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor ynglŷn â'r gefnogaeth bosibl i'r Mesur Hinsawdd ac Ecoleg, sydd i fod i gael ei ail ddarlleniad ar 24/11/2023. Trafodwyd y mater gan holl aelodau'r cyngor oedd yn bresennol a phenderfynwyd na ddylid cyflwyno ateb. Cynigwyd gan y Cyng J Williams OBE ac eiliwyd gan y Cyng R Jones. **Penderfynwyd** nodi.

Gadawodd y Cyng R McFarlane y cyfarfod am 19.25.

98/2023-2024 Cynllunio.

Dim gwrthwynebiadau i'r cais cynllunio isod. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge.

PL/06439 - Anedd Preswyl gyda Garej Integral - Tir gerllaw Maes y Llwyn, Llanddarog, Caerfyrddin, Llanddarog, SA32 8BJ.

Ailymunodd y Cyng R McFarlane â'r cyfarfod am 19.25.

PL/06498 - Dymchwel y neuadd bentref bresennol a gosod un newydd yn ei lle - Neuadd Bentref Llanddarog, Llanddarog, Caerfyrddin, SA32 8NS.

99/2023-2024 Taliadau.

Ardystiwyd y taliadau isod yn nghyfarfod Misol Gorffennaf, a chadarnhawyd hwynt yng nghyfarfod mis Hydref. Copïau o anfonebau a anfonwyd at bob aelod yn electronig cyn talu am awdurdodiad. Cynigwyd gan y Cyng S Herridge ac eiliwyd gan y cyng K Waters.

Dull Talu	Dyddiad	Cyflenwyr a Manylion	Swm £ gan gynnwys TAW
Ar-lein	27/07/2023	Nest	33.82
Ar-lein	31/07/2023	JG Evans – Cyflogres Gorffennaf	360.22
Ar-lein	31/07/2023	HMRC – Cyfnod 4	94.40
Ar-lein	31/07/2023	Gwasanaethau Coed Dinefor - 004	300.00
Ar-lein	31/07/2023	Rhyngrwyd Paragon - 7612094	84.00
Ar-lein	31/07/2023	Cymdeithas Cyfeillion Llanddarog	50.00
Ar-lein	24/08/2023	Nest	33.82
Ar-lein	29/08/2023	JG Evans – Cyflogres Awst	360.42
Ar-lein	29/08/2023	HMRC – Cyfnod 5	94.20
Ar-lein	29/08/2023	Gwasanaethau Coed Dinefor - 005	300.00
Ar-lein	29/08/2023	Catrin Llwyd – CCLL21	76.50
Ar-lein	25/09/2023	JG Evans – Cyflogres Medi	360.22
Ar-lein	25/09/2023	HMRC – Cyfnod 6	94.40

Ar-lein	25/09/2023	Gwasanaethau Coed Dinefor - 006	300.00
Ar-lein	25/09/2023	Mr LM Jones – Archwiliwr Mewnol	75.00
Ar-lein	28/09/2023	Nest	33.82

Cymdeithas Cyfeillion Llanddarog – (Cronfa Rhodd Cadeirydd) - £50.00

100/2023-2024 Derbyniadau.

25/08/2023 – Cyngor Sir Caerfyrddin – Praesept 2 - £6454.63.

101/2023-2024 Derbyn adroddiad yr Archwiliwr Ariannol Mewnol am y cyfnod 01/07/2023 - 30/09/2023.

Roedd pob aelod wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Cafwyd adroddiad llafar llawn gan y Cyng R Jones. Cadarnhaodd yr adroddiad gywirdeb y cysoniad banc a'r datganiad cyfrifon a ddarparwyd i'r Cyngor. Cadarnhaodd hefyd gywirdeb y darparu adroddiad cyllideb parhaus. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge i dderbyn yr adroddiad. Diolchodd yr aelodau i'r Cyng R Jones a'r Clerc am eu gwaith.

102/2023-2024 Derbyn diweddariad ar garreg goffa Porth-y-rhyd.

Dywedodd y Cyng J Williams O.B.E fod y prosiect yn dod yn ei flaen yn dda. Mae'r caeadau ar y safle. Bu Prosser Plant yn cloddio'r safle ac yn darparu deunydd ar gyfer y sylfaen, mae Tycroes Plant wedi rhoi'r deunydd dur ac mae Gower Plant wedi rhoi'r cymysgedd concrit. Awgrymodd y Cyng J Williams O.B.E y dylai'r broses o gasglu enwau'r milwyr a laddwyd gael ei wneud gan wirfoddolwyr ac nid cynnwys Cyngor Cymuned Llanddarog. Dylai unigolion gofrestru eu diddordeb i helpu. Canllawiau ar gasglu enwau i'w cael gan RBL ac arbenigwyr eraill. Unwaith y bydd enwau wedi eu casglu, a plac dros dro i fod ynghlwm i'w garreg goffa am gyfnod i ganiatáu i aelodau'r gymuned gadarnhau nad oedd unrhyw enwau perthnasol wedi'u hepgor. **Penderfynwyd** nodi.

103/2023-2024 I drafod Adroddiad Cynnal a Chadw Asedau.

Anfonodd y Clerc copi o'r Gofrestr Asedau a'r Adroddiad Cynnal a Chadw at holl aelodau'r Cyngor ar 02/09/2023 mewn e-bost. Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhestr ddiweddar o holl asedau Cyngor Cymuned Llanddarog, eu cyflwr, eu gwerth archwilio a gwerth yswiriant. Dywedodd y Clerc nad oedd angen unrhyw waith.

Derbyniwyd E-bost oddi wrth y Cyng J Williams O.B.E ar 01/10/2023 yn adrodd fod polyn fflag ym Mynyddcerrig wedi ei ddifrodi. Adroddodd y Clerc fod y difrod wedi ei adrodd a bod y diffyg wedi ei drwsio dros dro. Trafodwyd y mater gan aelodau'r cyngor, a phenderfynwyd y dylai'r atgyweiriad dros dro fod yn ddigon hyd nes bod archwiliad Loler ym mis Chwefror 2024. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng R Jones i dderbyn yr adroddiad. **Penderfynwyd** nodi.

104/2023-2024 Fforwm er mwyn i Aelodau godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd.

Roedd y Cyngor yn unfrydol i groesawu'r Clerc yn ôl yn dilyn cyfnod o analluogrwydd a arweiniodd at ganslo cyfarfod mis Medi ar fyr rybudd, a dymuno'n dda iddo am adferiad pellach.

Adroddodd y Cyng R Jones fod aelod o'r gymuned wedi dod ato ar 25/08/2023 ynglŷn â mynediad i lôn ym Mhorthyrhyd. Anfonodd y Clerc yr e-bost canlynol at Gyngor Sir Gaerfyrddin ar 26/08/2023.

“Mae'r cyngor cymuned wedi cael ei holi ynglŷn â mynediad i'r lôn/ffordd hanesyddol sy'n rhedeg tua. NNW o'r pwynt a nodir ar y map what3words, ynghlwm. Mae'n rhedeg am tua 510 metr lle mae'n ymuno ag isffordd. Ers peth amser bellach mae'r mynediad yn y man a nodir ar y map wedi'i gau i ffwrdd, sy'n ymddangos fel pe bai'n atal mynediad. A ddylai hyn fod yn wir? Rydym wedi gwirio gyda'r ceidwad yn Parc Gwlad Mynydd Mawr, ac mae wedi dweud wrthym nad yw'n lwybr troed ac felly nad yw o fewn eu hawdurdodaeth”.

Derbyniwyd e-bost gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar 31/08/2023 yn dweud na ddylid gwrthod mynediad i'r ffordd werdd hon ac roedd y rhaff wedi'i thynnu.

Adroddodd y Cyng R Jones hefyd fod lôn bosib arall heb fynediad bellach. Yn dilyn ymchwiliad, cadarnhawyd nad oedd hwn yn hawl tramwy cyhoeddus ac y dylid gwrthod mynediad pe bai'r tiffeddiannwr yn dymuno. Mae perchennog y tir wedi cael ei hysbysu.

Cyhoeddodd y Cyng R Jones fod Gwasanaeth Coffa i'w gynnal ar ddydd Sul 12/11/2023 yn Eglwys Sant Twrog, Llanddarog am 09.30 ac wrth Gofeb Rhyfel Mynyddcerrig am 13.00. 2 x torch pabi i'w prynu ar gyfer yr achlysur. **Penderfynwyd** nodi.

Atgoffodd y Clerc aelodau'r cyngor fod y mygiau coffa canlynol ar gael i'w gwerthu gan y cyngor cymuned a gofynnodd am gymorth i werthu'r eitemau.

Mwg Jiwbilî Platinwm y Frenhines - £3.50.

Tseina Esgyrn Mwg Coroniad Brenin Siarl III - £5.70.

105/2023-2024 Mewn camera 19.55.

Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned neu'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd bod materion personél / staffio yn cael eu trafod.

106/2023-2024 Rhedeg cyflog staff Awst, Medi, Hydref 2023.

Adroddodd y Clerc symiau'r gyflogres ar lafar i holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a chadarnhau taliad y symiau a gyflwynwyd.

Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn galwad gan MJBBS Ltd yn dweud bod taliad i HMRC o 2019-2020 wedi ei hepgor. Adroddodd y Clerc ei fod wedi gwirio'r datganiadau a'r llyfrau sic am y cyfnod a bod taliad wedi ei fethu yn ystod cyfnod trosglwyddo'r Clercod. Adroddodd y Clerc ei fod wedi trafod y camgymeriad gyda'r Archwiliwr Ariannol Mewnol ac awgrymodd fod y swm sy'n weddill o £77.80 yn cael ei dalu gyda thaliad Hydref 2023. Cytunodd holl aelodau'r cyngor. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng J Williams O.B.E.

107/2023-2024 Daeth y cyfarfod i ben am 20.02.

Cadeirydd

Dyddiad
